



**Croeso: beginners' Welsh**  
*Holiday's*

In this section, Annest and Gwilym talk about what they are going to do tomorrow, at the weekend and during their holidays. Annest then talks about what things she should and shouldn't do in the future and Gwilym tells us where he would like to go and where he wouldn't like to go. You don't need to understand everything – just try to get the gist of what is being said.

Gofynnes i i Annest a Gwilym: 'Beth yw rhai o'r pethau fyddwch chi'n wneud yfory?'

**Annest:**

Yn y bore, byddai'n codi'n eitha cynnar gyda'r plant er mwyn paratoi'r plant i fynd i'r Ysgol ...

Pan ddaw'r plant yn ôl o'r ysgol yn y p'nawn, mi wna i eistedd lawr a wna i ffonio fy chwaer i glywed os oes unrhyw hanes ...

Tua pedwar o'r gloch, ga i baned ac ar ôl paned, awn ni am dro i'r parc os mae'r tywydd yn braf. Ac weithiau awn ni â ci y cymydog am dro hefo ni hefyd.

**Gwilym:**

Yfory bydd rhaid i mi godi am chwech. Pam am chwech? Wel, mae rhaid i mi wneud tipyn bach o ioga yn y bore. Hanner awr o ioga, a wedyn bore fory, sef bore dydd Llun, bydda i'n mynd i nofio erbyn hanner awr (we)di saith. Ac ar ôl nofio, bydda i'n dod i'r archfarchnad ar y ffordd adre i siopa ac wedyn dod adre i gael brecwast. Ac yna, wel, bydda i'n mynd i siopa eto yn y pentre neu ddarllen y papur newydd – y Western Mail wrth gwrs – dyna fy meibl. Ac yna bydd hi'n – w – fydd hi'n amser cinio wedyn.

Gofynnes i i Annest wedyn: 'Beth fyddi di'n wneud ar y penwythnos?'

**Annest:**

Ar ddydd Sadwrn erbyn hyn mae rhaid i ni godi'n eitha cynnar gan fod y plant yn codi'n reit gynnar. Ac os fydd y tywydd yn braf, awn ni i'r parc neu awn ni am dro ar hyd y pier yma.

Reit aml awn ni i'r Amgueddfa Genedlaethol ar y penwythnos, ac weithiau mae 'na arddangosfa arbennig ar gyfer y plant; felly fydd y plant wrth eu bodd yn cael cyfle i redeg o amgylch yr amgueddfa.

Ar fore dydd Sul (w)nawn ni godi'n eitha cynnar a weithiau mynd i'r eglwys, ac wrth ddod yn ôl o'r eglwys, awn ni i brynu papur dydd Sul.

Gofynnnes i i Gwilym: 'Beth fyddi di'n wneud ar y penwythnos? Fyddi di'n hoffi garddio neu siopa?'

**Gwilym:**

Na, dwi'n casáu garddio, a mae rhaid ... mae gardd fawr hefo fi ac mae rhaid i mi dorri'r lawntiau o bryd i'w gilydd, a dw i'n casáu y gwaith ond mae rhaid i mi gadw'r lle yn daclus.

Siopa ar benwythnos – na, fydda i (ddi)m yn gwneud llawer o siopa, dim ond mynd i nôl y papurau. A dw i'n mynd i'r capel pob bore dydd Sul. Mae capel Cymraeg yn y pentre lle dw i'n byw, a bydda i'n mynd i'r capel pob bore dydd Sul erbyn chwarter wedi deg.

Wedyn, gofynnnes i iddyn nhw: 'Fyddwch chi'n mynd ar eich gwyliau eleni?'

**Annest:**

Mi fyddwn ni'n mynd i Ffrainc ar ein gwyliau eleni. Ac dyn ni'n gobeithio mynd i wersylla a rhyw deithio ychydig o gwmpas Ffrainc. Felly byddwn ni'n cymryd y cwch o Dover i Calais a wedyn gyrru i lawr tuag at Llydaw.

Ac yn Llydaw, dyn ni'n gobeithio mynd i'r traeth os bydd hi'n dywydd braf, ond os na fydd y tywydd cystal, mi fyddwn ni'n mynd i arddangosfa neu efallai mynd am dro tuag at y wlad yn hytrach na'r traeth.

**Gwilym:**

Fydda i ddim yn mynd ar wyliau 'go iawn' eleni, dw i ddim yn meddwl. Na, achos y llynedd es i ar fy ngwyliau i Dde Amerig, i Batagonia, a mi gostiodd ffortiwn i mi, a felly eleni dw i'n cynilo tipyn bach ar fy arian er mwyn i mi gael mynd nôl i Batagonia y flwyddyn nesa.

Gofynnnes i i Annest sôn am y pethau dylai hi wneud a'r pethau ddylai hi ddim wneud:

**Annest:**

Dylwn i beintio'r tŷ, a dylwn i godi'n gynt yn y bore, a dylwn i fynd i'r gampfa yn amlach.

Ond ddylwn i ddim bwyta gymaint o fwyd gyda braster, a ddylwn i ddim mynd i'r gwely mor hwyr gyda'r nos. Ddylwn i ddim gyrru dros 70 milltir yr awr ar y briffordd. Ddylwn i ddim gwario gymaint pan dw i'n siopa am ddillad. Ddylwn i ddim prynu gymaint o siocled pan dw i'n mynd i'r archfarchnad.

Gofynnwch i i Gwilym ble hoffai fe fynd a ble hoffai fe ddim mynd:

**Gwilym:**

Hoffwn i fynd nôl i Ganada. Dw i wedi bod yng Nghanada, a wir, (r)o'n i'n hoffi'r bobl yng Nghanada, a hoffi'r golygfeydd, ac (r)oedd y wlad yn wlad daclus a glân, dim graffiti na dim byd. Ac wir, mae'n glamp o wlad. Hoffwn i ymweld â Chanada unwaith eto.

Hoffwn i ddim teithio i'r lleuad dw i (ddi)m yn meddwl, ond na, hoffwn i ddim, rhag ofn fyddwn i ddim yn dod nôl.

**Eitha** before an adjective occurs more than once in the snippets, for instance **eitha cynnar** *fairly early*. Another way of saying the same thing, which also occurs several times, is to use the word **reit** (which, unlike **eitha**, causes a soft mutation): **reit aml** *quite often*, **reit gynnar** *quite early*.

Did you notice the northern form **efo** or **hefo**? This often corresponds to **gyda** in the south. Anest, for instance, said **awn ni â ci y cymydog am dro efo ni** *we'll take the neighbour's dog for a walk with us*, where you would hear **gyda ni** in the south.

Another northern feature is the use of **mi** in front of affirmative statements: **mi wna i** rather than **gwna i**, **mi fyddwn ni** instead of **byddwn ni** and **mi gostiodd** instead of **costiodd**. While the **mi** doesn't add anything to the meaning, you'll see that it causes a soft mutation.

Gwilym uses the phrase **o bryd i'w gilydd**, which means *from time to time*. He also describes Canada as **clamp o wlad** meaning *a huge country*.

Now you may want to listen to the two speakers again, bearing in mind the explanations we have given.

Dyna ni am y tro. Hwyl fawr.